

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. NOS LUN 29AIN O FEDI 2014 YN YSGOL PANT PASTYNOG, PRION AM 7.30 O'R GLOCH.

PRESENNOL: Y Cyngorwyr Philip Williams (Cadeirydd), Jill Evans, Iwan Jones, Falmai Evans, Stan Williams, Iona Edwards-Jones, Barri Evans, Elfed Williams, Hywel Davies, Cyngorydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

1. CROESAWODD Y CADEIRYDD I'R DDAU AELOD NEWYDD I'R CYFARFOD, SEF IONA EDWARDS-JONES AC ELFED WILLIAMS.

2. YMDDIHEURIADAU: Y Cyngorydd Gwenan Hughes.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 28ain o Orffennaf a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Derbyniwyd adroddiad Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar ganlynol:-

- A. Mae'r gymuned wedi cael ail doriad glaswellt erbyn hyn.
- B. Cyfrifoldeb perchnogion yw'r waliau pob ochr y ffordd rhwng Y Lodge a'r King's Head yn Llanrhaeadr.
- C. Mae'r gwli wedi ei glanhau wrth Dyddyn Isaf, Prion.

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £15,675.00.

B. Derbyniadau:-

1. Ail ran o'r 2014/15 Precept - £3,928.00.

2. Ataliad Swyddfa Archwilio Cymru - £30.00.

C. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2014 - £360.00.

2. PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fedi 2014 - £90.00.

3. Cennin Ltd. Am sefydlu'r Wefan y Cyngor - £506.21.

4. Hacker Young (Archwiliwr Allanol) â'n y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2014 - £180.00.

5. Cyngor Sir Ddinbych am gyfarfod y Cyngor - £20.00.

6. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi gwrthod cais cynllunio am newid defnydd tir i faes carafannau a champion ar gae yng Nghae'r Mynydd, Saron.

B. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Parlwr Godro yn Llwyn Banc, Llanrhaeadr.

2. Datblygu darn o dir am 15 o dai (cais amlinell) ar dir gyferbyn a Llys Gwilym, Llanrhaeadr.

3. Mae'r Arolygaeth Gynllunio wedi caniatáu cais cynllunio am dyrbinau gwynt yn Fferm Wynt Coedwigaeth Clocaenog.

C. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Cynllunio Cyngor Sir Ddinbych ynghyn ar waith ddim yn gyfreithiol sydd yn bodoli yn Brŷn Eglur, Llanrhaeadr.

7. GOHEBIAETH.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych ar hyn o bryd yn trafod Cynllunio'r Gyllideb a Rhagdybiaethau ar gyfer y dyfodol.

B. Derbyniwyd llythyr oddi wrth Pauline Edwards o Pont-y-Bedol oedd yn cynnwys dau bris am glirio'r coed ar y llwybr rhwng a Chae'r Felin yn Llanrhaeadr. Gan nad mae Cyngor Sir Ddinbych am glirio'r coed gofynni'r am rodd gan y Cyngor Cymuned. Penderfynwyd yr aelodau gan fod cyfrifoldeb Llywodraeth Genedlaethol Cymru oedd yn gyfrifol am y tir i'r Clerc hysbysu hyn i Pauline Edwards ac iddi gysylltu â'r Aelod Cynulliad lleol ynglŷn ar fater.

C. Derbyniwyd adroddiad oddi wrth Gynghorydd Iona Edwards-Jones bod Natural Power wedi bod yn ymgynghori ar Gynghorau Cymunedol Nantglyn a Llansannan yn ddiweddar ynglŷn â datblygiad Fferm Wynt yn Pant-y-Maen ger Nantglyn. Penderfynwyd gwahodd Joshua Brown o gwmni Natural Power i'r cyfarfod nesaf i drafod y datblygiad.

D. Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

8. UNRHYW FATER ARALL.

A. Derbyniwyd y Cadeirydd taflen wybodaeth y gymuned (yn Saesneg yn unig) a gynhyrchwyd gan yr W.I. yn Llanrhaeadr a gofynnwyd am rodd tuag at y costau. Penderfynwyd yr aelodau am roi cyfraniad am daflen wybodaeth dwy ieitdeg.

B. Derbyniwyd adroddiad Cynghorydd Sir Ddinbych Joe Welch bod y Cabinet Cyngor Sir Ddinbych yn trafod newidiadau trafndiaeth i Ysgolion Sir Ddinbych bore Mawrth ac mi fydd yn cyfrannu i'r cyfarfod i beidio gofyn i'r plant lleol gorfod talu am drafndiaeth i Ysgol Glan Clwyd yn Llanelwy.

C. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at y canlynol:-

1. Diolch i'r Adran am y gwaith ail wynebu'r gyffordd yn ddiweddar wrth y Cof Colofn yn Llanrhaeadr.
2. mae'r wyneb y ffordd rhwng Fferm y College a Pen-y-Gerddi ym Mheniel eisiau sylw.
3. Mae'r wyneb y ffordd wrth Fron, Prion eisiau sylw.

D. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc gofyn i'r Cyngor Sir symud y Safle Bws o Gapel Saron i'r gilfa'n wrth Maes-yr-Yrfa yn Saron oherwydd diogelwch.

9. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 27ain o Hydref 2014 yn Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am 7.30 o'r gloch.